**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2021**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGANIADAU CYSYLLTIAD | Datganodd y Cynghorwyr Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol ag eitem 6 ar y rhaglen – Sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru, gan eu bod ill dau'n Gyfarwyddwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020 fel cofnod cywir.* |
| **5** | CYNLLUN BRYS AR GYFER BYSIAU | ***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Cabinet yn* **–**<br><br>*(a) cytuno ag egwyddorion cytundeb Cynllun Brys ar gyfer Bysiau 2 (Atodiad 2 yr adroddiad) i sicrhau cymorth ariannol (amodol) i'r sector bysiau ac i sefydlu perthynas â Chyngor Sir y Fflint fel yr awdurdod arweiniol rhanbarthol a'r llofnodwr, sy'n sicrhau bod yr arian brys parhaus yn bodloni blaenoriaethau'r awdurdod ac yn cael ei ddarparu ar ei ran, ac*<br><br>*(b) maes o law, i alw am adroddiad pellach ar gynigion i ddiwygio bysiau mewn perthynas â rheoli gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn y dyfodol.* |
| **6** | SEFYDLU PARTNERIAETH CHWARAEON GOGLEDD CYMRU | ***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Cabinet yn –*<br><br>*(a) cefnogi, mewn egwyddor, sefydliad Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru ac yn dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd mewn ymgynghoriad gydag Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth a Swyddog Adran 151 i gymeradwyo telerau y Cytundeb Rhwng Awdurdodau Terfynol, a* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b) bod Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn cael ei benodi i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Llywodraethu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru gan weithredu fel asiant i'r Cyngor.* |
| **7** | GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2021/22 | ***PENDERFYNWYD –***<br><br>*(a) mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2021/22 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 i'r adroddiad);*<br><br>*(b) cynyddu rhent anheddau'r Cyngor yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol i rent wythnosol cyfartalog o £93.89 i'w weithredu o ddydd Llun 5 Ebrill 2021;*<br><br>*(c) nodi'r adroddiad ychwanegol (Atodiad 3 i'r adroddiad) ar Arbedion Effeithlonrwydd, Fforddiadwyedd a gwerth am arian, a*<br><br>*(d) bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **8** | CYLLIDEB 2021/22 – CYNIGION TERFYNOL | ***PENDERFYNWYD** y byddai'r Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi effaith Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2021/22;*<br><br>*(b) cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ac y manylir arnynt yn Adran 4 yr adroddiad, ac yn eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn llunio'r gyllideb yn derfynol ar gyfer 2021/22;*<br><br>*(c) argymell i'r Cyngor y cynnydd cyfartalog arfaethedig o 3.8% yn Nhreth y Cyngor;* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2021**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(d) argymell i'r Cyngor fod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian sydd wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500mil os oes yna symud rhwng ffigyrau'r setliad drafft a'r setliad terfynol er mwyn gallu gosod Treth y Cyngor yn amserol, a*<br><br>*(e) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les a gyflwynwyd fel rhan o'r adroddiad hwn.* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2020/21 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.* |
| **10** | BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |